
Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â lansio ac adfer systemau gosod pibellau, gosod blychau neu ficro-dwnelu wrth adeiladu twneli, cysylltu a datgysylltu systemau gan ddefnyddio gweithdrefnau ynysu diogel ar gyfer peryglon ynni sydd wedi ei storio a sicrhau cyfathrebu agos â phawb sy'n rhan o'r gwaith.

Bydd gweithwyr sy'n gweithio i'r safon hon yn gallu dangos a deall arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, yn unol â gofynion y sefydliad sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth a safonau cyfredol.

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes galwedigaethol gweithrediadau twnelu a gall gweithwyr, goruchwylwyr a rheolwyr ei defnyddio.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Dehongli gwybodaeth

P1 dehongli'r wybodaeth am y gwaith a'r adnoddau i gadarnhau ei bod yn berthnasol ar gyfer y canlynol:

- lluniadau
- cyfarfod briffio ynghylch tasgau
- asesiadau risg
- datganiadau dull
- gwybodaeth y gwneuthurwr

Arferion gwaith diogel

P2 cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol a safonau i wneud y gwaith, a chynnal systemau gwaith diogel yn ymwneud â'r canlynol:

- dulliau gweithio
- defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch yn ddiogel
- defnyddio cyfarpar mynediad yn ddiogel
- defnyddio systemau diogel i fynd i mewn ac allan o'r twnel
- defnyddio, storio a thrin deunyddiau, offer, peiriannau a chyfarpar yn ddiogel
- risgiau penodol i iechyd a lles galwedigaethol gan gynnwys iechyd meddwl

Dewis adnoddau

P3 dewis y maint cywir o adnoddau ac ansawdd angenrheidiol yr adnoddau hynny ar gyfer y dulliau gweithio:

- deunyddiau, cydrannau a gosodiadau
- peiriannau, offer a chyfarpar

Lleihau'r risg o ddifrod

P4 cydymffurfio â gweithdrefnau'r sefydliad i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r amgylchedd, drwy wneud y canlynol:

- diogelu'r gwaith
- cadw'r ardal waith yn ddiogel, yn glir ac yn daclus
- gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol

Cyflawni dulliau gweithio

P5 cydymffurfio â'r datganiad dull i adeiladu twneli drwy weithrediadau gosod pibellau,

gosod blychau neu ficro-dwnelu yn unol â'r fanyleb ofynnol drwy wneud y canlynol:

• dangos sgiliau gwaith i wneud y canlynol:

- mesur
- lleoli
- lefelu
- alinio
- cysylltu
- datgysylltu
- glanhau
- gwirio
- diogelu
 - defnyddio a chynnal a chadw peiriannau, offer a chyfarpar
 - adeiladu twneli yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio gan ddefnyddio un o'r dulliau canlynol:
- gosod pibellau
- gosod blychau
- micro-dwnelu
 - cyfleu gweithrediadau gwaith i eraill

Amser a neilltuwyd

P6 cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a amcangyfrifwyd ac a neilltuwyd yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad, y rhaglen waith ac i ddiwallu anghenion galwedigaethau eraill ac anghenion y cleient

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

P1 Dehongli gwybodaeth

K1 pam mae gweithdrefnau'r sefydliad wedi cael eu datblygu a sut maent yn cael eu rhoi ar waith

K2 pwysigrwydd rhoi gwybod am wybodaeth amhriodol a'i chywiro

K3 mathau o wybodaeth, beth yw eu ffynhonnell a sut i'w dehongli mewn perthynas â:

- lluniadau
- cyfarfod briffio ynghylch tasgau
- asesiadau risg
- datganiadau dull
- gwybodaeth y gwneuthurwr
- safonau
- gweithdrefnau'r sefydliad
- deddfwriaeth gyfredol

K4 yr amrywiaeth o wasanaethau digidol perthnasol a sut maen nhw'n cael eu defnyddio gan gynnwys:

- offer digidol
- systemau digidol

P2 Arferion gwaith diogel

K5 gwybodaeth ar gyfer deddfwriaeth gyfredol a safonau a sut mae'n cael ei chymhwyso

K6 y gwahanol fathau o gyfarpar diogelwch tân

K7 sut dylid ymateb i argyfyngau yn unol ag awdurdodiad y sefydliad a sgiliau personol, gan gynnwys ond heb fod wedi'u cyfyngu i'r canlynol:

- tanau, gollyngiadau ac anafiadau
- nwyon ac awyru
- argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol
- nodi ac adrodd ar sylweddau peryglus

K8 y gweithdrefnau sy'n ymwneud â diogelwch peiriannau, cyfarpar ac eiddo personol, mewn perthynas â'r canlynol:

- y gweithlu
- safle
- gweithle

- cwmni
- cerbydau
- y cyhoedd

K9 sut mae rhoi gwybod am risgiau a pheryglon sy'n ymwneud â'r canlynol:

- dulliau gweithio
- asesiad risg
- asesiadau risg personol
- delio â sefyllfaoedd anniogel
- gwybodaeth dechnegol gwneuthurwyr
- sgysiau ynghylch blwch tasgau ac offer
- rheoliadau statudol
- safonau

K10 y gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny

K11 pam, pryd, a sut dylid defnyddio'r cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch a nodir gan egwyddorion atal mewn perthynas â'r canlynol:

- mesurau diogelu ar y cyd
- cyfarpar diogelu personol (PPE)
- cyfarpar diogelu anadlol (RPE)
- awyru

K12 sut mae cydymffurfio ag arferion gweithio sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni deddfwriaeth a safonau cyfredol

K13 gweithdrefnau'r sefydliad wrth ddelio â damweiniau, digwyddiadau, perygl i ddiogelwch, peryglon iechyd posibl a'r effaith ar yr amgylchedd wrth weithio:

- yn y gweithle
- dan lefel y ddaear
- mewn mannau cyfyng
- mewn mannau uchel
- gyda gwaith dros dro
- mewn amgylchedd ag aer cywasgedig
- gyda pheiriannau, offer a chyfarpar
- gyda deunyddiau a sylweddau
- gyda symud a chodi deunyddiau a chyfarpar drwy ddulliau mecanyddol a gyda llaw
- i drin a storio deunyddiau'n ddiogel, gan gynnwys ffrwydron

P3 Dewis adnoddau

K14 pam mae cyfyngiadau, ansawdd a chynaliadwyedd adnoddau'n bwysig, a sut dylid cywiro diffygion

K15 pam dewiswyd yr adnoddau a sut maen nhw'n cael eu defnyddio

K16 sut mae cadarnhau bod yr adnoddau'n cyd-fynd â'r dasg benodol

K17 sut dylid defnyddio'r adnoddau a sut mae rhoi gwybod am unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r adnoddau mewn perthynas â'r canlynol:

- systemau gosod pibellau, gosod blychau a micro-dwnelu
- peiriannau, offer a chyfarpar

K18 sut mae nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r adnoddau, a'r dulliau gweithio a sut mae rheoli'r rhain

P4 Lleihau'r risg o ddifrod

K19 sut mae diogelu gwaith, a'r amgylchedd rhag difrod, a phwrpas diogelu rhag gweithgareddau cyffredinol yn y gweithle a galwedigaethau eraill

K20 pam a sut mae'n rhaid gwaredu gwastraff yn ddiogel yn unol â'r canlynol:

- cyfrifoldebau amgylcheddol
- gweithdrefnau'r sefydliad
- gwybodaeth y gwneuthurwr
- rheoliadau statudol
- safonau

K21 pam ei bod yn bwysig cynnal ardal waith ddiogel, glir a thaclus

P5 Cyflawni dulliau gweithio

K22 sut mae cydymffurfio â'r datganiad dull mewn perthynas â'r canlynol:

- sut mae gosod, lleoli a monitro pibellau a chyfarpar gosod pibellau, gosod blychau a micro-dwnelu, gan gynnwys systemau rhyng-osod
- sut mae adeiladu twneli drwy osod pibellau, gosod blychau a micro-dwnelu
- sut mae lansio ac adfer peiriannau gosod pibellau, gosod blychau, a micro-dwnelu
- sut mae cysylltu a datgysylltu systemau gan ddefnyddio gweithdrefnau ynysu diogel ar gyfer peryglon ynni sydd wedi ei storio
- pam ei bod yn bwysig sicrhau bod gweithrediadau gwaith yn cael eu cyfleu i'r holl weithwyr sy'n ymwneud â'r gweithrediad hwn, a gweithrediadau cysylltiedig
- sut mae delio â ffynonellau ynni peryglus gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- trydan
- aer cywasgedig

- hydroleg
 - hylifau dan bwysedd
 - offer tensiwn uchel
 - pam ei bod yn bwysig nodi a phenderfynu pryd mae angen sgiliau a gwybodaeth arbenigol, ac adrodd yn briodol ynghylch hyn
 - terfynau eich awdurdod eich hun
 - pam ei bod yn bwysig nodi a dilyn gofynion ansawdd y gosodiad
 - sut mae gweithio gyda pheiriannau ac offer, o'u cwmpas ac yn agos iawn atynt
 - beth yw'r gofynion ar gyfer gweithio mewn lle cyfyng
 - sut mae gweithio mewn mannau uchel
 - sut mae defnyddio cyfarpar a systemau mynediad
 - sut mae defnyddio peiriannau, offer a chyfarpar
 - sut a pham y mae'r gweithiwr yn gofalu am yr holl beiriannau, offer a chyfarpar ac yn eu cynnal a'u cadw
- K23 pwysigrwydd gwaith tîm a chyfathrebu, a defnyddio systemau cyfathrebu
- K24 pwysigrwydd iechyd a lles galwedigaethol, gan gynnwys iechyd meddwl
- K25 pwysigrwydd defnyddio Tegwch, Cynhwysiant a Pharch wrth ddelio ag eraill
- K26 anghenion galwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig ag adeiladu twneli drwy weithrediadau gosod pibellau, gosod blychau a micro-dwnelu

P6 Amser a neilltuwyd

K27 y rhaglen ar gyfer gwneud y gwaith, gan gynnwys yr amser a amcangyfrifwyd ac a neilltuwyd, a pham y dylid cadw at derfynau amser

COSVR569

Adeiladu twneli drwy weithrediadau gosod pibellau, gosod blychau neu ficro-dwnelu



Datblygwyd gan	CITB
Fersiwn rhif	3
Dyddiad cymeradwyo	30 Tach 2023
Dyddiad Adolygu Dangosol	30 Tach 2028
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	CITB
RCU gwreiddiol	COSVR569
Galwedigaethau perthnasol	Adeiladu
Cyfes/Set	Gweithrediadau Twnelu (Adeiladu)
Geiriau Allweddol	Pibellau gosod; Twneli micro; Gosod pibellau; Rhyng-osod; Gosod blychau
